MAE POB LLUN YN ADRODD STORI

TROSOLWG I ATHRAWON

Cynnwys

- Cyflwyniad
- Nod *Mae Pob Llun yn Adrodd Stori*
- Strwythur *Mae Pob Llun yn Adrodd Stori*
- Gwahaniaethu
- Gwybodaeth gefndir am Fiet-nam
- Amlinelliad manwl o'r sesiynau
- Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Cydnabyddiaethau
- Adnoddau defnyddiol

Cyflwyniad

Mae *Mae Pob Llun yn Adrodd Stori* yn canolbwyntio ar fywydau pobl ifanc yn Fiet-nam, ac mae'n gyfle i ddysgwyr ddefnyddio casgliad o luniau a'r straeon sy'n gefndir iddynt fel man cychwyn i gyflawni uned waith ar gyfer y cwricwlwm Cymraeg. Yn Fiet-nam, daeth 49 o bobl ifanc o naw ysgol ynghyd i gofnodi eu bywydau bob dydd ac i rannu eu syniadau ynghylch eu lluniau. Roedd yr holl ffotograffwyr yn dod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn tair gwahanol ran o Fiet-nam, sef yr H'Mong o daleithiau Lao Cai a Dak Nong, a'r Cham a'r Raglai o dalaith Ninh Thuan. Roedd arnynt eisiau i'r rhai a fyddai'n gweld y lluniau ddeall rhai o'r problemau y maent yn eu hwynebu fel pobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yn Fiet-nam heddiw.

Yn ystod y prosiect hwn, cafodd y bobl ifanc ddewis yr hyn yr oeddent am ei bortreadu, a'u hyfforddi i ddefnyddio camerâu i gofnodi'r testunau yr oeddent wedi cytuno arnynt. Un o brif ffactorau'r prosiect oedd bod y bobl ifanc yn ymgymryd â'r gwaith eu hunain, heb bwysau i bortreadu'r hyn y gallai oedolion fod am ei weld. O weld bywyd drwy lygaid pobl ifanc, mae'n dod ag ymdeimlad o ffresni a dyngarwch i'r delweddau. Drwy'r prosiect hwn, bu i'r bobl ifanc feithrin hunanhyder, a sylweddoli bod modd iddynt afael yn yr awenau a gwneud pethau drostynt eu hunain ac ar eu pennau eu hunain. Ar ddiwedd y broses, aeth y bobl ifanc ati i gynnal arddangosfa ac i gyhoeddi llyfr o'u gwaith. Gallwch weld y llyfr hwn (a gyhoeddwyd mewn Fietnameg a Saesneg) fel ffeil pdf ar wahân yn yr adnodd hwn.

Mae *Mae Pob Llun yn Adrodd Stori* yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r lluniau a'r straeon sy'n gefndir iddynt i ddysgu mwy am eu cyfoedion yn Fiet-nam. Mae lluniau yn adnodd sy'n ysgogi'r meddwl ac yn ennyn diddordeb dysgwyr ar unwaith. Gall lluniau annog dysgwyr i deimlo empathi, i arsylwi ac i gwestiynu, a gellir eu defnyddio mewn ffordd benagored. Serch hynny, mae i luniau gyfyngiadau hefyd. Nid yw lluniau ond yn gallu rhoi cipolwg ar eiliad benodol, ac maent yn cyfleu'r naws neu'r neges y mae'r ffotograffydd wedi dewis ei chyfleu. Mae *Mae Pob Llun yn Adrodd Stori* yn annog dysgwyr i feithrin eu sgiliau llythrennedd gweledol drwy edrych ar luniau'n ofalus a chydag ymwybyddiaeth feirniadol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Bydd y dysgwyr yn canfod bod y geiriau sy'n cyd-fynd â'r lluniau yn rhoi cipolwg manylach ar fywydau pobl ifanc Fiet-nam, ac yn rhoi mwy o wybodaeth amdanynt. Mae'n bosibl bod eu bywydau'n wahanol iawn, ond byddant yn sylweddoli bod tebygrwydd rhwng eu bywydau nhw a bywydau'r bobl ifanc yn Fiet-nam, a bod themâu cyffredin yn codi ynddynt. Mae'r ffocws ar chwarae, helpu a rhannu yn ddolenni cyswllt uniongyrchol.

Nodau *Mae Pob Llun yn Adrodd Stori*

- Meithrin sgiliau Cymraeg y dysgwyr mewn meysydd amrywiol gan gynnwys: defnyddio iaith lafar i ddyfalu, i ddamcaniaethu, i ddychmygu ac i archwilio syniadau; ysgrifennu a llunio darnau i'w perfformio i gynulleidfa darged; meithrin ymwybyddiaeth o'r ffordd y gellir defnyddio lluniau i adrodd stori.
- Defnyddio astudiaethau achos o fywyd go iawn i ennyn diddordeb dysgwyr a rhoi cyfle iddynt greu cysylltiadau rhwng eu bywydau nhw a bywydau plant yn Fiet-nam.
- Annog dysgwyr i ddefnyddio'r ysbrydoliaeth o weld prosiect ffotograffiaeth yn Fiet-nam i roi eu prosiect eu hunain ar waith ar gyfer y gymuned ehangach.
- Annog arddulliau dysgu ac addysgu cyfranogol, ymchwiliol a chydweithredol, a datblygu meddwl beirniadol.

Strwythur *Mae Pob Llun yn Adrodd Stori*

- Sioe sleidiau
- Chwe chynllun sesiwn
    - Sesiwn 1: Trin a thrafod lluniau
    - Sesiwn 2: Y straeon sy'n gefndir i'r lluniau
    - Sesiwn 3: Lluniau sy'n adrodd stori
    - Sesiwn 4: Adrodd stori
    - Sesiwn 5: Cymharu a chyferbynnu
    - Sesiwn 6: Mynd gam ymhellach

Mae'r adnodd hwn wedi'i rannu'n chwe sesiwn sy'n darparu deunydd ar gyfer gwersi llythrennedd a all bara wythnos neu ddwy neu ragor. Bwriedir i'r dysgwyr gwblhau pob uned yn ei thro. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl, ac felly gall athrawon addasu'r deunyddiau i ateb gofynion eu dysgwyr nhw.

Ar ddechrau pob sesiwn, ceir trosolwg sy'n cynnwys amcanion dysgu, deilliannau dysgu, cwestiynau allweddol, a chysylltiadau â'r cwricwlwm. Cynigir gweithgareddau arfaethedig, ynghyd ag amseroedd bras. Mae unrhyw adnoddau neu daflenni gweithgareddau wedi'u cynnwys yng nghynllun y sesiwn. Mae'r sesiynau hyn hefyd yn cyfeirio at sioe sleidiau a ddarperir ar wahân.

Mae'r gweithgareddau a geir yn y pecyn hwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio dull Pie Corbett, 'Talk for Writing', a dulliau amrywiol eraill, llawer ohonynt yn ddulliau y bydd athrawon eisoes yn gyfarwydd â nhw. Defnyddir y dulliau isod yn yr adnodd hwn i gynorthwyo athrawon i gefnogi gwaith llythrennedd:

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Partneriaid Siarad: Mae'r rhain yn annog dysgwyr i ymarfer eu syniadau ar lafar cyn mynd ati i ysgrifennu.
- Waliau Gweithio: Mae'r rhain yn creu trysorfa o eirfa gyfoethog ac yn cynorthwyo'r dysgwyr i ysgrifennu'n annibynnol. Ni fwriedir i'r Waliau Gweithio fod yn arddangosfeydd graenus o'r gwaith ysgrifennu terfynol. Yn hytrach, bwriedir iddynt ddarparu adnoddau y gall y dysgwyr eu defnyddio wrth iddynt feithrin eu sgiliau ysgrifennu. Gallai'r rhain gynnwys cronfa o syniadau, geiriau a geirfa y mae'r plant wedi'u hychwanegu at y wal fel adnodd i'w rannu.
- Gemau brawddegau: Brawddegau sy'n ehangu, fel addasiad o'r gêm *Parson's Cat,* sef gêm draddodiadol lle y mae pob unigolyn yn disgrifio'r gath gan ddefnyddio ansoddair sy'n dechrau â llythyren benodol yn yr wyddor. Yn Gymraeg, byddai modd disgrifio ci, efallai, e.e. ci anturus/blewog/clyfar/chwareus/du ac ati (er na fydd modd rhoi ansoddair ar gyfer pob llythyren yn yr wyddor Gymraeg).

Gwahaniaethu

Lle y bo modd, mae'r gweithgareddau a'r adnoddau wedi'u gwahaniaethu i ateb gofynion gwahanol ddysgwyr yn y dosbarth. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol addasu rhai o'r gweithgareddau i ateb gofynion disgyblion hŷn ac iau.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwybodaeth gefndir am Fiet-nam

[1]

Prifddinas	Hanoi
Poblogaeth	91 miliwn[2]
Arwynebedd	331,051 cilometr sgwâr[3]
Ieithoedd	Mae tua 90% o'r boblogaeth yn siarad Fietnameg. Siaredir Tsieineeg, Chmereg a Chameg hefyd, yn ogystal ag o leiaf 100 o ieithoedd lleiafrifol.
CGC y pen	$4,912[4]
Disgwyliad oes	75 mlynedd
Cyfradd llythrennedd oedolion	93.4%[5]
Mynediad at ddŵr yfed diogel	95%[6]
Y boblogaeth drefol	32%

Daearyddiaeth

Gwlad hir a thenau â siâp tebyg i lythyren S yn ne-ddwyrain Asia yw Fiet-nam. Mae'r wlad dros 1,000 o filltiroedd o hyd, ond dim ond 31 milltir o led ydyw yn ei man culaf. Mae deltâu dwy o afonydd mwyaf Asia yn Fiet-nam: yr Afon Goch yn y Gogledd ac Afon Mekong yn y De. Mae'r tir o amgylch y deltâu yn ffrwythlon iawn, felly dyma'r ardaloedd lle y mae'r rhan fwyaf o fwyd Fiet-nam yn cael ei dyfu a'r rhan fwyaf o'r bobl yn byw. Mae'r Ucheldir Canolog yn gwahanu rhanbarthau'r ddau ddelta, gyda'r mynyddoedd yn croesi'r wlad hyd at Fôr De Tsieina. Mae Fiet-nam yn wlad fynyddig a choediog iawn, gyda 40 y cant o arwynebedd tir y wlad wedi'i orchuddio â mynyddoedd a choedwigoedd.

[1] https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Vietnam_in_Asia_(-mini_map_-rivers).svg
[2] Adroddiad Datblygiad Dynol Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig 2014
[3] Uned Gwybodaeth yr Economist http://country.eiu.com/article.aspx?articleid=1893617373&Country=Viet Nam&topic=Summary&subtopic=Basic+data
[4] Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig http://hdr.undp.org/en/content/gdp-per-capita-2011-ppp
[5] UNICEF http://www.unicef.org/infobycountry/Viet Nam_statistics.html
[6] UNICEF (fel uchod)

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mae hinsawdd Fiet-nam yn llaith ac yn drofannol. Yn y gogledd, mae hi'n oer ac yn llaith yn ystod y gaeaf sy'n para o fis Tachwedd tan fis Ebrill. Yn yr haf, mae hi'n boeth ac yn wlyb, ac mae'r gwyntoedd monsŵn trofannol yn dod â digonedd o law a lleithder yn eu hynt. Yn gyffredinol, mae'r de yn gynhesach na'r gogledd. Bydd canol Fiet-nam yn aml yn cael ei daro gan deiffwnau.

Hanes modern Fiet-nam

Am bron i gan mlynedd, tan 1954, cafodd Fiet-nam ei llywodraethu gan Ffrainc, ac fe rannwyd y wlad yn ddwy – y gogledd a'r de. Roedd Ho Chi Minh, arweinydd Fietnameaidd a oedd wedi'i leoli yng Ngogledd Fiet-nam, am redeg y wlad fel gwladwriaeth Gomiwnyddol, gyda chefnogaeth yr Undeb Sofietaidd. Roedd yr Unol Daleithiau yn cefnogi llywodraeth De Fiet-nam, ac fe arweiniodd y gwrthdaro rhwng y ddau bŵer mawr at ryfel cartref creulon a barodd bron i ugain mlynedd. Yn 1973, tynnodd yr Americanwyr eu milwyr o Fiet-nam ac fe unwyd y wlad ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Yn 1990, Fiet-nam oedd un o wledydd tlotaf y byd, a hithau'n ei chael yn anodd adfer ei sefyllfa ar ôl degawdau o ryfela. Cafodd ei hynysu ar ôl iddi oresgyn Cambodia i ddymchwel cyfundrefn y Khmer Rouge, cyfundrefn a oedd yn cael ei chefnogi gan y Cenhedloedd Unedig. Yn sgil cytundeb heddwch 1991, dechreuodd Fiet-nam symud yn raddol o fod yn wladwriaeth Gomiwnyddol wedi'i chynllunio o'r canol i fod yn wlad ag economi sy'n seiliedig ar farchnadoedd.

Fiet-nam heddiw

Mae amodau byw wedi gwella'n raddol yn Fiet-nam, ac mae nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi wedi gostwng yn sylweddol.[7] Heddiw, mae'r rhan fwyaf o bobl Fiet-nam yn gallu cael mynediad at ofal iechyd da ac at ddŵr yfed diogel. Serch hynny, er gwaethaf y cynnydd a wnaed, nid yw pawb wedi elwa'n gyfartal ar lewyrch cynyddol Fiet-nam. Mae'r bwlch rhwng y tlawd a'r cyfoethog a'r bwlch rhwng poblogaeth ethnig fwyaf y Kinh a'r 54 poblogaeth ethnig leiafrifol a geir yn y wlad yn cynyddu. Er nad ydynt ond yn cyfrif am 14 y cant o'r boblogaeth, maent yn cyfrif am hanner pobl dlawd y wlad.[8]

Mae poblogaeth Fiet-nam yn ifanc iawn, gyda 28 y cant yn iau na 18 oed.[9] Ar hyn o bryd, nid yw'r llywodraeth ond yn talu cymhorthdal ar gyfer addysg gynradd, ond mae nifer y plant sydd wedi'u cofrestru yn uchel.[10] Serch hynny, er bod y rhan fwyaf o deuluoedd am anfon eu plant i'r ysgol, gall pobl dlotach wynebu heriau enfawr i'w cadw nhw yno. Mae llawer o bobl ifanc yn gadael ysgolion uwchradd oherwydd nad ydynt yn gallu fforddio'r ffioedd dysgu. Ar aelwydydd tlotach, mae'n aml angen i'r bobl ifanc weithio i helpu eu teuluoedd.[11]

[7] Young Lives 2013 www.younglives.org.uk/sites/www.younglives.org.uk/files/VIETNAM-SurveyDesign-Factsheet.pdf
[8] Adroddiad *Oxfam in Vietnam,* Mehefin 2012 www.oxfam.org.uk/what-we-do/countries-we-work-in/vietnam
[9] Young Lives 2013 www.younglives.org.uk/sites/www.younglives.org.uk/files/VIETNAM-SurveyDesign-Factsheet.pdf
[10] Young Lives 2013 www.younglives.org.uk/sites/www.younglives.org.uk/files/VIETNAM-Education%26Learning-Factsheet.pdf
[11] Young Lives 2014 www.younglives.org.uk/sites/www.younglives.org.uk/files/VIETNAM-Youth%26Development-Factsheet.pdf

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Lluniau a straeon o Fiet-nam – amlinelliad manwl o'r sesiynau

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Sesiwn 1: Trin a thrafod lluniau Bydd y dysgwyr yn meithrin eu sgiliau iaith lafar drwy drin a thrafod lluniau a dynnwyd gan blant yn Fiet-nam sy'n dangos agweddau ar eu bywydau bob dydd. Bydd y disgyblion yn gweithio mewn grwpiau bach cyn dod i wybod mwy am rai o'r lluniau a drafodwyd ganddynt.	• Defnyddio lluniau i drin a thrafod agweddau ar fywyd bob dydd mewn diwylliant arall. • Defnyddio trafodaeth i feithrin dealltwriaeth drwy ddyfalu, damcaniaethu, dychmygu ac archwilio syniadau. • Gofyn cwestiynau perthnasol i estyn dealltwriaeth a gwybodaeth.	• Bydd y dysgwyr yn dod i wybod gwybodaeth gefndir am Fiet-nam. • Bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach i drafod, i archwilio ac i drefnu lluniau. • Bydd y dysgwyr yn gofyn cwestiynau perthnasol i estyn eu dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei weld yn y lluniau. • Bydd y dysgwyr yn gwrando ar y straeon sy'n gefndir i rai o'r lluniau a drafodwyd ganddynt.	• Beth yr ydych yn meddwl y mae'r bobl yn y llun yn ei wneud? • Pam yr ydych yn meddwl eu bod nhw'n gwneud hyn? • Pa label a fyddai'n addas ar gyfer eich llun: chwarae, helpu neu rannu? • Ble yr ydych yn meddwl y gallai'r bobl yn y llun fod? Beth yw'r lleoliad? • Beth arall yr ydych yn gallu ei weld yn y llun? • A ydych chi erioed wedi gwneud rhywbeth tebyg i'r bobl yn eich llun?	Tasg gychwynnol: Croeso i Fiet-nam Gweithgaredd 1.1: Trin a thrafod lluniau Gweithgaredd 1.2: Trefnu a rhannu	• *Lluniau i'w trin a'u trafod* • *Labeli trefnu* • *Y straeon sy'n gefndir i'r lluniau* • Sioe sleidiau: sleidiau 2 i 8 • Tri chylch â'r labeli a ganlyn arnynt: 'Chwarae', 'Helpu' a 'Rhannu'.
Sesiwn 2: Y straeon sy'n gefndir i'r lluniau Bydd y dysgwyr yn cydweithio fel dosbarth i greu map testun gyda symudiadau i adrodd y stori sy'n gefndir i lun. Yna, byddant yn gweithio mewn grwpiau bach i greu eu mapiau testun eu hunain ar gyfer llun arall o'u dewis.	• Ystyried sut i gofio ac i ailadrodd stori gan ddefnyddio symbolau a symudiadau. • Pwyso a mesur pwysigrwydd geiriau, ymadroddion a manylion allweddol i greu naratif da.	• Bydd y dysgwyr yn darganfod sut i ddethol y geiriau a'r ymadroddion allweddol sy'n rhoi manylion pwysicaf testun. • Bydd y dysgwyr yn mynd ati i greu map testun gan ddefnyddio symbolau i gynrychioli'r geiriau a'r ymadroddion allweddol. • Bydd y dysgwyr yn creu symudiadau i bwysleisio'r geiriau a'r ymadroddion allweddol mewn stori. • Bydd y dysgwyr yn perfformio eu stori i eraill gan ddefnyddio'u mapiau testun.	• Pa stori a allai fod yn gefndir i'r llun? • Pa eiriau neu ymadroddion y mae angen eu pwysleisio wrth ailadrodd y stori sy'n gefndir i'r llun? • Pa symbol a allai gynrychioli'r gair neu'r ymadrodd hwnnw? • Pa symudiad a allai gynrychioli'r gair neu'r ymadrodd hwnnw?	Tasg gychwynnol: Beth yw'r stori? Gweithgaredd 2.1: Mapio testun fel dosbarth Gweithgaredd 2.2: Mapio testun mewn grwpiau bach	• *Straeon i'w trin a'u trafod* • Sioe sleidiau: sleidiau 9 i 17 • *Map testun*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Sesiwn 3: Lluniau sy'n adrodd stori Bydd y dysgwyr yn trin a thrafod sut y gall lluniau roi gwybodaeth bwysig i ni am fywydau pobl. Byddant yn cynllunio lluniau sy'n dweud rhywbeth wrth eraill am eu bywydau nhw yn yr ysgol, ac yna byddant yn creu'r lluniau hyn gan ddefnyddio camerâu neu ddeunyddiau lluniadu. Byddant yn cyflwyno'u lluniau ar lafar ac yn rhannu'r straeon sy'n gefndir i'w lluniau ag eraill yn y dosbarth.	• Sylweddoli sut y gall lluniau gyfleu gwybodaeth bwysig am bobl a lleoedd. • Trin a thrafod sut y mae pob llun yn cynnwys negeseuon a all fod yn dda, yn ddrwg, neu'n niwtral. • Creu llun sy'n dweud rhywbeth wrth eraill am fywyd yn yr ysgol.	• Bydd y dysgwyr yn pwyso a mesur sut y gall cyfansoddiad gofalus helpu i egluro'r stori a geir yn y llun. • Bydd y dysgwyr yn cynllunio llun sy'n cyfleu gwybodaeth am eu bywyd yn yr ysgol. • Bydd y dysgwyr yn creu llun sy'n cynrychioli agwedd ar fywyd yr ysgol.	• Pa negeseuon a syniadau y byddech yn hoffi i'ch llun eu cyfleu ar y thema chwarae, helpu neu rannu? • Pwy fydd yn eich llun chi? • Beth y bydd y bobl yn eich llun yn ei wneud? • Ble y bydd y bobl yn eich llun? • Pryd y byddwch yn tynnu'r llun? • Pam yr ydych yn meddwl bod hwn yn llun pwysig i'w rannu ag eraill? • Beth yr ydych am ei ddangos i eraill trwy dynnu'r llun hwn? • Beth yw'r stori sy'n gefndir i'r llun?	Tasg gychwynnol: Sut i greu llun Gweithgaredd 3.1: Pa stori fyddwch chi'n ei hadrodd? Gweithgaredd 3.2: Cynllunio a chreu lluniau	• Sioe sleidiau: sleidiau 18 i 21 • Camerâu (neu ffenestri (darnau sgwâr neu hirsgwar o garden y gallwch edrych drwyddynt) a phensiliau braslunio os nad oes camerâu ar gael) • Taflen waith: *Pa stori fyddwch chi'n ei hadrodd?*
Sesiwn 4: Adrodd stori Bydd y dysgwyr yn adrodd y stori sy'n gefndir i'r llun a grëwyd ganddynt yn ystod Sesiwn 3. Byddant yn gwneud hyn ar lafar ac yna yn ysgrifenedig.	• Meithrin dealltwriaeth o brif gynhwysion stori (cymeriadau, lleoliadau a digwyddiadau). • Ymarfer brawddegau strwythuredig ar lafar. • Ysgrifennu disgrifiadau sy'n glir ac yn ddigon manwl i ennyn diddordeb y darllenydd.	• Bydd y dysgwyr yn adrodd y stori sy'n gefndir i lun ar lafar, gan egluro'r cymeriadau, yr hyn sy'n digwydd, y lleoliad, a pham y mae'r stori'n bwysig. • Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'r stori sy'n gefndir i lun, gan adeiladu ar yr wybodaeth a roddwyd pan fu iddynt adrodd eu stori ar lafar.	• Pwy sydd yn y llun? • Ble y cafodd y llun ei dynnu? • Pryd y cafodd y llun ei dynnu? • Beth sy'n digwydd yn y llun? • Pam yrr ydych yn meddwl bod hwn yn llun pwysig i'w rannu ag eraill?	Tasg gychwynnol: Adrodd stori ar lafar Gweithgaredd 4.1: Ysgrifennu stori	• Sioe sleidiau: sleid 23 • Taflen waith: *Pa stori fyddwch chi'n ei hadrodd?* o Sesiwn 3, gyda llun pob dysgwr wedi'i atodi. • Taflen waith: *Adrodd stori,* gyda llun pob dysgwr wedi'i atodi.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Sesiwn 5: Cymharu a chyferbynnu Bydd y dysgwyr yn pwyso a mesur y pethau sy'n debyg a'r pethau sy'n wahanol o gymharu eu lluniau nhw â'r lluniau a dynnwyd gan blant yn Fiet-nam. Byddant yn trafod eu harsylwadau ac yna byddant yn dewis a ydynt am adrodd eu stori drwy berfformio neu drwy ysgrifennu.	• Pwyso a mesur y pethau sy'n debyg a'r pethau sy'n wahanol o gymharu'r straeon am fywydau plant yn Fiet-nam ac yng Nghymru. • Trin a thrafod gwahanol ffyrdd o adrodd stori: ar lafar ac yn ysgrifenedig.	• Bydd y dysgwyr yn pwyso a mesur y pethau sy'n debyg a'r pethau sy'n wahanol o gymharu straeon a bywydau plant yn Fiet-nam ac yng Nghymru. • Bydd y dysgwyr yn trafod eu harsylwadau. • Bydd y dysgwyr yn mynegi eu harsylwadau drwy adrodd stori, drwy ysgrifennu, neu drwy berfformio; a byddant yn canolbwyntio ar gymeriadau, lleoliadau a digwyddiadau.	• O gymharu eich bywyd chi â bywyd y plentyn yn Fiet-nam a dynnodd y llun, beth yr ydych yn sylwi sy'n debyg? • O gymharu eich bywyd chi â bywyd y plentyn yn Fiet-nam a dynnodd y llun, beth yr ydych yn sylwi sy'n wahanol?	Tasg gychwynnol: Trin a thrafod pethau sy'n debyg a phethau sy'n wahanol Gweithgaredd 5.1: Trin a thrafod pethau sy'n debyg a phethau sy'n wahanol ar lafar Gweithgaredd 5.2: Cyflwyno pethau sy'n debyg a phethau sy'n wahanol	• *Lluniau a straeon* • Taflen waith: *Cymharu a chyferbynnu* • Sioe sleidiau: sleid 25 • Nodiadau gludiog • Dalennau mawr o bapur • Taflen waith: *Adrodd stori* o Sesiwn 4
Sesiwn 6: Mynd gam ymhellach Bydd y dysgwyr yn estyn yr hyn y maent wedi'i ddysgu drwy gynllunio gweithgaredd gwaith cartref i greu llun o aelod o'u teulu. Yna, bydd y dysgwyr yn trafod sut y byddent yn hoffi rhannu'r gwaith a wnaed ganddynt yn ystod yr uned hon â chymuned ehangach yr ysgol.	• Deall pwysigrwydd lluniau a'r straeon sy'n gefndir iddynt o ran rhoi argraff o fywydau'r plant. • Defnyddio lluniau i drin a thrafod agweddau ar fywyd bob dydd mewn diwylliant arall. • Defnyddio trafodaeth i feithrin dealltwriaeth drwy ddyfalu, damcaniaethu, dychmygu ac archwilio syniadau. • Cyfathrebu'r hyn a ddysgwyd â chymuned ehangach yr ysgol.	• Bydd y dysgwyr yn archwilio'r lluniau a dynnwyd gan blant yn Fiet-nam o aelodau o'u teulu, ac yn darllen y straeon sy'n gefndir i'r lluniau. • Bydd y dysgwyr yn cynllunio eu llun eu hunain sy'n adrodd stori am aelod o'u teulu nhw. • Bydd y dysgwyr yn rhannu syniadau o ran sut i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu â chymuned ehangach yr ysgol.	• Pwy yw'r bobl yn y llun? • Ble y cafodd y llun ei dynnu? Beth yw'r lleoliad? • Beth y mae'r bobl yn y llun yn ei wneud? • Pam y mae'r ffotograffydd yn teimlo ei bod yn bwysig tynnu'r llun hwn?	Tasg gychwynnol: Lluniau teulu Gweithgaredd 6.1: Cynllunio gwaith cartref Gweithgaredd 6.2: Cynllunio i rannu	• Taflen waith: *Lluniau teulu* • Taflen waith: *Cynllunio gwaith cartref: Stori deuluol* • Sioe Sleidiau: *Lluniau sy'n adrodd stori* sleidiau 27 i 31

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Mae'r adnodd hwn yn canolbwyntio ar y cwricwlwm Cymraeg ac yn ceisio meithrin nifer o sgiliau allweddol, fel siarad a gwrando, cyfleu gwybodaeth wrth gynulleidfa drwy ailadrodd, a chynllunio a golygu gwaith ysgrifenedig. Serch hynny, rydym yn sylweddoli y gellir defnyddio'r adnodd mewn nifer o ffyrdd, a bod cysylltiadau rhyngddo a phynciau eraill, fel Mathemateg, Daearyddiaeth, ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh). Gall y gweithgareddau a awgrymir isod hefyd fod yn ddefnyddiol i athrawon yng Nghyfnod Allweddol 1 sydd am fynd ati ar sail testun i feithrin cysylltiadau â meysydd eraill y cwricwlwm.

Mathemateg

Gwaith cynhwysedd

Rhowch reis ar hambwrdd mawr a gofynnwch i'r dysgwyr lenwi cynwysyddion o wahanol siapiau a meintiau, cyn mynd ati i'w pwyso ar glorian. Ar ddechrau'r gweithgaredd, gofynnwch i'r dysgwyr ragfynegi pa gynhwysydd fydd yn dal y swm mwyaf o reis. Pa gynhwysydd fydd y trymaf neu'r ysgafnaf? Yna, rhowch symiau syml i'r dysgwyr eu pwyso: 100g, 200g a 300g.

Daearyddiaeth

Dangos y ffordd

Defnyddiwch gwmpawd i osod atlas fel ei fod wedi'i alinio â safle'r byd go iawn. Cynorthwywch y dysgwyr i gael hyd i'w lleoliad nhw ar y map. Gofynnwch iddynt weithio allan beth yw'r cyfeiriad cywir i Fiet-nam ac yna pwyntio i'r cyfeiriad hwnnw. Gan ddefnyddio'r atlas, gofynnwch iddynt ddisgrifio siwrnai i Fiet-nam. Pa gyfandiroedd, gwledydd a moroedd y byddent yn eu croesi? Sut y byddent yn teithio?

Cadw llygad ar y tywydd

Gan ddefnyddio lluniau amrywiol, trafodwch â'r dysgwyr yr hyn y gallant ei ddweud am y tywydd yn Fiet-nam. Lluniwch ddwy restr. Bydd y naill yn cynnwys rhestr o eiriau sy'n disgrifio'r tywydd yn Fiet-nam, a bydd y llall yn cynnwys rhestr o eiriau sy'n disgrifio'r tywydd yn ardal y dysgwyr. O edrych ar y lluniau, pa gliwiau sy'n dangos i'r dysgwyr pa fath o dywydd a geir yno? Edrychwch ar y dillad y mae'r bobl yn eu gwisgo, y mathau o dai a geir yno, a'r llystyfiant. Gwyliwch fwletin tywydd ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, a gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn timau i greu eu bwletin eu hunain ar gyfer y diwrnod, naill ai yng Nghymru neu yn Fiet-nam.

Mae'n werth tynnu sylw'r dysgwyr at y ffaith fod gan Fiet-nam a Chymru dymhorau (i gael gwybod mwy, darllenwch yr wybodaeth gefndir am Fiet-nam yn y Trosolwg i Athrawon).

Y fasged siopa

Dewch â rhai pecynnau o reis â'r wlad tarddiad wedi'i nodi arnynt i'r dosbarth. Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr gael hyd i'r gwledydd mewn atlas a'u nodi ar fap o'r byd. A all y dysgwyr ddod i unrhyw gasgliadau am y rhannau o'r byd sy'n addas i dyfu reis, a'r tywydd a geir yn y gwledydd hyn?

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Edrych ar yr hyn y gallaf i ei wneud!

Gan ddefnyddio'r lluniau, edrychwch ar rai o'r gweithgareddau y mae'r plant yn Fiet-nam yn eu gwneud. Ar ddalen fawr o bapur neu bapur wal, tynnwch linell lorweddol a rhowch rifau o 1–7 ar yr ochr chwith i gynrychioli oedrannau'r dysgwyr hyd yma. Gofynnwch i'r dysgwyr beth y bu iddynt ddysgu ei wneud ar wahanol oedrannau, fel cerdded, siarad, reidio beic, a dysgu darllen.

Nesaf, gofynnwch i'r dysgwyr beth y byddent yn hoffi gallu ei wneud yn y dyfodol, a rhowch y pethau hyn ymhellach ar hyd y llinell amser. Cyfeiriwch at y lluniau ac at weithgareddau rhai o'r plant yn Fiet-nam, ac ychwanegwch y rhain at y llinell amser hefyd. Er enghraifft, mae'r person ifanc a welir yn sleid 30 o'r sioe sleidiau *Mae Pob Llun yn Adrodd Stori* yn dweud ei bod hi'n gallu brodio sgertiau. Pan fyddwch yn ymgymryd â'r gweithgaredd hwn, ewch ati i gymharu bywydau'r dysgwyr â bywydau'r bobl ifanc yn Fiet-nam, gan nodi'r pethau sy'n debyg yn ogystal â'r pethau sy'n wahanol.

Dylunio a Thechnoleg

Cacennau reis gludiog

Ewch ati i goginio cacennau reis gludiog! Yn draddodiadol, bydd cacennau reis yn cael eu coginio ar gyfer Gŵyl Tet, sef Gŵyl Blwyddyn Newydd y Lleuad, yn Fiet-nam. Fel arfer, bydd y rysáit yn defnyddio porc, ffa mwng a saws pysgod wedi'u lapio mewn dail banana. Cafodd y rysáit hon ei haddasu er mwyn iddi fod yn hawdd ei choginio mewn ysgol.

Cynhwysion

500g o flawd reis gludiog
200g o siwgr
40g o ffrwythau wedi'u sychu (gallech ddefnyddio dêts, bricyll, llugaeron wedi'u torri)
40g o resins
120g o gnau wedi'u torri
225ml o ddŵr

Cyfarwyddiadau

- Ewch ati i gyfuno'r holl gynhwysion sych, eu cymysgu ac ychwanegu'r dŵr i greu cytew.
- Arllwyswch y cytew i dun cacen wedi'i iro, a rhowch y tun mewn stemiwr neu ar ben powlen lai o faint a osodwyd y tu mewn i bot coginio mawr.
- Ychwanegwch ddŵr at y pot a gadewch i'r gacen stemio am tua 30 munud nes bod y gacen yn dryleu a bod ei gwead yn solet.
- Bwytewch a mwynhewch!

Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae *Mae Pob Llun yn Adrodd Stori* yn adnodd dinasyddiaeth fyd-eang. Mae Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn fethodoleg i helpu pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar. Mae Oxfam yn awgrymu dull Dysgu – Meddwl – Gweithredu i roi cyfle i'r bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am ffyrdd o'u datrys, a gweithredu fel dinasyddion byd-eang cyfrifol. Gallai'r camau gweithredu gynnwys darganfod mwy o wybodaeth neu feddwl yn ddyfnach am fater. Gallent hefyd olygu sicrhau bod eraill yn fwy

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

ymwybodol o fater, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. I gael mwy o wybodaeth, gweler: www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship

Dyma elfennau allweddol dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	**Sgiliau**	**Gwerthoedd ac agweddau**
• Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Hunaniaeth ac amrywiaeth • Globaleiddio a rhyngddibyniaeth • Datblygu cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro • Hawliau a chyfrifoldebau • Pŵer a llywodraethu	• Meddwl yn feirniadol ac yn greadigol • Empathi • Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod • Cyfathrebu • Cydweithredu a datrys gwrthdaro • Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd • Y gallu i gymryd camau gwybodus a phriodol	• Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Parch at bobl a hawliau dynol • Rhoi gwerth ar amrywiaeth • Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy • Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant • Y gred y gall pobl sicrhau newid

Cydnabyddiaethau

Gyda diolch arbennig i Katrine Pringle am ei mewnbwn o ran ysgrifennu'r adnodd hwn ac i Teresa Garlake am olygu'r adnodd.

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan nifer o staff Oxfam.

I gael mwy o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gweler: www.oxfam.org.uk/education

Telerau defnyddio
Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.